Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Clerc **Mr R. Arwel Pierce**

**Ffôn: 01654 711470**
**E.bost: gwenar@btinternet.com**

**Llain y grug**
**Bryncrug**
**Tywyn**
**Gwynedd LL36 9RB**

# Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg Hydref 2015 am 7pm

Presennol: Alan H Jones (cadeirydd) Cynghorydd Bethan Lawton, Richard Evans, Simon Jones, George Evans ac Arwel Pierce ( cofnodwr)

Ymddiheuriad: Ieuan Thomas (salwch) a Peter Parker (gwyliau)

**Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 21 Medi fel cywir.**

## Gohebiaeth

- Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Eileen Jones

- Hysbysebu swydd Clerc
  Eglurodd y cofnodwr ei fod wedi cysylltu ag Un Llais Cymru ynglŷn â'r drefn o benodi Clerc dros dro a Swyddog Cyfrifon yn absenoldeb ceisiadau o'r newydd. Sylwyd bod un hysbyseb arall i ymddangos yn Dail Dysynni unwaith eto. Pe na bai ymgeisydd yn cynnig wedi hyn **penderfynwyd ail ymweld a chynnwys yr hysbyseb a chynnal cyfarfod arbennig i wyntyllu hyn ar nos Fawrth 10fed Tachwedd am 5.30 o'r gloch.**

## Cyflwr y Graig

Ymddengys nad yw Cyngor Gwynedd na CC am dderbyn cyfrifoldeb am y cynnal a'r cadw. BL am wneud mwy o ymholiadau.

## Cae Chwarae

- Adroddodd AHJ fod cyflwr cyffredinol y cae yn foddhaol.
- Rhoddwyd caniatâd i BL symud ymlaen i dalu am y swings( £373 + TAW) + £16 cludiant.
- Sbwriel ~ cafwyd sawl cwyn ynglŷn a'r sbwriel oedd i'w weld o gwmpas yr offer chwarae.
- Noson Tan Gwyllt ~ cytunwyd â chais y Pwyllgor i gynnal y noson fel arfer. Ni fydd codi tâl ond gofynnwyd am wybodaeth ynglyn â threfn y Pwyllgor ynglyn â dyddiad cau'r giât a'r trefniadau clirio wedi'r digwyddiad .

## Hysbysfwrdd y Mileniwm.

Teimlwyd fod yr amcangyfrif pris am adleoli'r meinciau yn uchel.
Cytunwyd i drwsio rhai planciau a symud mainc i lenwi'r bwlch a staenio'r hyn sydd angen Diolchwyd i AHJ am glirio'r mieri.

## Llwybrau.

Derbyniwyd cadarnhad gan Liz Haynes fod Cyngor Gwynedd am dderbyn y cyfrifoldeb o gymhennu llwybr Dolithel a'r Ffatri. Roedd bwriad hefyd i ail wynebu'r llwybrau yn Nolithel a Maesygrug

## Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau fod y Giang Cymunedol am ymweld â'r pentref yn fuan.

**Taliadau.**
Cytunwyd fel â ganlyn:~

- Torri sietyn y cae chwarae –
  Hefin Pugh Inv 2610 28/3/15 £51.00 Rhif Siec 101467
- Cynnal a chadw o gwmpas y pentre
  J K Jones Inv No. /01 £ 960 Rhif Siec 101468
- Ad-daliad trydan y Pafiliwn
  Alan H Jones £ 30 Rhif Siec 101469
- Llogi Sied i gadw eiddo'r Cyngor
  Pwyllgor y Ganolfan £50 Rhif Siec 101470

**Ail Strwythuro Gwasanaeth Cofrestru Meirion Dwyfor**
Derbyniwyd cadarnhad mai ar ddydd Iau'n unig fydd y gwasanaeth hwn ar gael yn Nhywyn a hynny rhwng 10 a 12 o'r gloch.

**Cyfarfod Blynyddol Parc Cenedlaethol Eryri**
I'w gynnal yn Neuadd Dyfi ar nos Iau 19 Tachwedd rhwng 6.30 p.m. a 9 o'r gloch
Cytunodd Richard Evans ac Arwel Pierce i fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

**Dosbarthu'r Post yn ardal y Dysynni**
Rhoddwyd ar wybod i'r ardalwyr fod y Post Brenhinol, wedi cyfnod o ymgynghori, am gau'r Ganolfan Ddosbarthu ym Mhendre a chanoli'r gwaith ym Machynlleth.
Teimlwyd yn gryf iawn fod y sefyllfa hon yn annerbyniol a chytunwyd yn unfrydol i anfon llythyr o brotest i'r Asiantaeth.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: nos Lun,16ed Tachwedd am 7 o'r gloch**

# Minutes of meeting held on Monday 19th October 2015 at 7pm

**Present:** Alan H Jones (Chair) Cllr B Lawton; Richard Evans; Simon Jones; George Evans; Arwel Pierce (recorder)

**Apology:** Ieu Thomas (illness) Peter Parker (holidays)

**The minutes of 21st September 2015 were dully accepted and signed.**

**Correspondence**

- Mrs Eileen Jones warmly thanked the Council for its support during her tenure of 21 years as Clerk of the Council

- Advertising the post of Clerk
  AP reported that he had been in contact with One Voice Wales regarding the appointment of a temporary Clerk and Financial Officer due to the lack of applicants. **It was agreed that a meeting of the Council be held on Tuesday November 10th at 5.30 to revisit the content of the advert should the response prove negative again.**

**Maintaining the Graig**
It appears that neither Gwynedd C.C nor the Housing Association is willing to undertake this responsibility. BL promised to make further enquiries.

**Playground.**

- AHJ reported that the general condition of the field appears to be satisfactory.
- It was agreed for BL to order the required number of swings at a cost of £373 + vat + £16 carriage
- Several complaints had been received regarding the rubbish thrown around the children's play area.
- Bonfire night. - Members supported the application made by the Ganolfan Committee to hold the annual event. No hiring charge will be implemented but the Committee was requested to provide details of its arrangements to lock the main gate and clearing the field after the event.

**Millennium Notice Board.**

Being that the estimate provided appeared to be high, it was resolved that it would be more prudent to replace some of the laths and use the present bench as replacement. Further staining work will be required. AHJ was thanked for clearing the brambles.

**Paths**

Liz Haynes of GCC had confirmed by letter that the Authority would be responsible for the maintenance work on the paths by the Factory and Dolithel and resurfacing the pavements at Maesygrug and Dolithel.

**Cllr B Lawton report.**

Confirmed that the work of clearing parts of the village is in hand.

**Payments**

Resolved that the following invoices be paid:

- Trimming boundary hedge Cae Chwarae
  Hefin Pugh Inv 2610 28.03.15 £51 Cheque No 101467
- Grass cutting
  J K Jones Inv No/01 £960 Cheque No 101468
- Electric meter refund
  Alan H Jones £30 Cheque No 101469
- Rental of Storage Shed
  Ganolfan Committee £50 Cheque No 101470

**Restructuring the Meirionnydd Registrar Services**

It was confirmed that this service will now be available on Thursday mornings only at Tywyn between 10 and 12 o'clock.

**Snowdonia National Park Annual Meeting**

To be held at Neuadd Dyfi Aberdovey on Thursday 19 November between 6.30 and 9pm. Richard Evans and Arwel Pierce agreed to attend.

**The Postal Service in the Dysynni Valley**

Members were highly disturbed upon receiving news of  the Royal Mail's intention after a period of consultation ,to close the Sorting Office at Pendre and to transfer the work to Machynlleth. Members strongly objected to such a proposal and agreed that a letter of protest be sent to Royal Mail forthwith

**Date of next meeting: Monday November 16th at 7 pm.**